# 'Cytundeb' fferm fy nhaid

Gan JOHN ROBERTS
Groeslon

FFORDD ardderchog o wastraffu amser ydi penderfynu clirio hen bapurach sydd wedi hel tros hir oes. Erbyn ichi ddarllen y peth yma a'r peth arall ohonynt, a barnu, wedi'r cwbl, bod yn rhaid cadw *hwn* a *hwn* a *hwn*, mae'r pentwr ar gyfer y drol sbwriel yn fychan iawn, ac oriau, os nad dyddiau, wedi diflannu.

Ond fe gewch eich gwobr. Felly y daeth hi i mi wrth 'glirio' (os dyna'r gair) hen gist.

Un o'r pethau ynddi oedd 'Agreement' i osod fferm i fy nhaid, John Roberts. Dyddiwyd y weithred ym Medi 1878 rhwng Sgweiar Nanhoron, Francis William Lloyd Edwards, Esq., a Mr John Roberts, a hynny ynddo'i hun yn dangos yn glir safle'r ddau mewn cymdeithas, y naill yn 'Esquire' a'r llall yn ddim ond 'Mr'.

Unochrog ydi'r Cytundeb. Meddyliwch am Amod 20:

**The Agricultural Holdings (England) Act 1875, or any part or provision thereof shall not apply to this contract, nor shall any custom of the country affect the same or be set up in opposition thereto.**

Arferion cymdeithas; traddodiad gwlad . . .

Cadwai'r Perchennog iddo'i hun yr hawl i saethu, pysgota a hela ar y tir dan sylw, ond ar y Tenant y disgynnai'r cyfrifoldeb o warchod yr adar yr anelid y gwn atynt, a'r pysgod a'r gêm a erlidid; cipar di-dâl. Fo hefyd oedd i gadw'r lle rhag pob Dici-bach-dwl a awyddai ddod yno i saethu neu bysgota neu hela yn wrthgefn i'r Sgweier.

Roedd Frederick William yn fab i Richard Lloyd Edwards a fu farw yn 1876. Mae Pedrog yn sôn yn ddifyr iawn amdano yn ei hunangofiant, *Stori Mywyd*, ac yn cyfeirio ato fel 'hen foneddwr rhadlon braf, a cheidwadwr rhonc,' ac fel 'un o feibion Anac' a does dim rhaid egluro beth oedd nodwedd y meibion hynny.

* * *

FO, RICHARD, oedd y Sgweier y clywais amdano mewn stori ddigon difyr. Brawd hynaf fy nhaid, Robert, oedd y tenant ar y pryd, ac yntau rai blynyddoedd yn hŷn na'i frawd, John. Roedd hi'n ddiwrnod teilo ac erbyn canol y bore, dau lwyth neu dri wedi eu cario o'r domen i gae arbennig ar ochr bellaf y bryn oedd (ac sydd o hyd, gan nad oes neb wedi ei symud) y tu cefn i'r tŷ.

Daeth y ddau i lawr i mofyn llwyth arall cyn cinio, ac wrth orffen llwytho, pwy welsant yn dod ar ei stalwyn gwyn, ond y gŵr cydnerth hwnnw Sgweier Nanhoron, yn ffrydio'r afon oedd ar y terfyn fel pe buasai'n ffos fach wrth glawdd yr ardd.

Ar y pryd, yr oedd Robert yn dal swydd bwysig Cwnstabl y Plwy. Fel y gwyddis, ni sefydlwyd yr Heddlu cyn 1829, ond ni ddaeth y fath awdurdod i gyffiniau Llŷn am beth amser wedi hynny. Cwnstabl y Plwy, felly, oedd y dyn-cadw-trefn, ac i ddangos ei awdurdod roedd ganddo wialen goch.

'Robert,' meddai'r Sgweier, 'maen nhw'n deud i mi fod haid o Wyddelod yn gwersyllu ar boncan Bryn Cethin. Fedra i ddim diodde'r diawlaid; rhaid iti fynd yno a pheri iddyn nhw symud.'

'Iawn, Sgweier,' atebodd yntau, 'mi a i gynta bydda ni wedi mynd â'r llwyth yma i'r cae.'

'Fedra i ddim aros; rhaid iti fynd rŵan. Mi fedar yr hogyn 'ma fynd â'r llwyth yn iawn.' 'Doedd diben yn y byd i Robert ddadlau na fedrai hogyn 12 oed fynd â llwyth trwm hyd ochrau serth a llympio'r llwyth yn ddiogel wedyn cyn dod adre'n wag. Rhaid oedd dad-fachu a mynd i chwilio am Wialen yr Awdurdod.

* * *

I FFWRDD â'r ddau, Robert a 'Nhaid, i gyfeiriad Bryn Cethin, a'r Sgweier ar y stalwyn gwyn yn eu dilyn. Wedi cyrraedd y lle, gwelwyd yn wir bod yno nifer o Wyddelod, dau neu dri o deuluoedd a golwg truenus arnynt, nhw a'u plant carpiog a'u tipyn pethau. Mae'n rhaid bod gan Robert rywfaint o Saesneg i fedru dweud wrthynt am symud, ond doedd ei orchymyn yn mennu dim ar y Gwyddelod, na'r Wialen Goch yn codi ofn arnynt! Yn wir, torchodd un gŵr ei lewys yn barod am gwffas.

Pan welodd Lloyd Edwards hynny, ac yntau'n sefyll yn y lôn rai llathenni draw, dyma sbarduno'r stalwyn gwyn a neidio gwrychoedd a thwmpathau a thrwy'r mewnfudwyr annerbyniol gan chwifio'i chwip i bwrpas.

Bu'r ddadl honno'n ddigon i'w perswadio mai pacio oedd orau, a llwytho hynny o bethau oedd ganddynt ar ddwy drol law fach a chychwyn.

* * *

YR ORYMDAITH yn mynd yn araf, beth bynnag am osgeiddig, tua'r aber, sef aber Afon Soch. (Doedd y Blackpool presennol sy'n arddel yr hen enw ddim yn bod y pryd hynny.) Ymlaen wedyn i Lanbedrog, ac wedi cyrraedd Tŷ Du (Glyn y Weddw Arms heddiw), dyma'r Sgweier yn dweud 'Dos â nhw cyn belled â Lôn y Berch, Roberts. Rydw i'n mynd adra am ginio rŵan,' a ffwrdd ag o ar garlam gan gymryd ei lwybr i gyfeiriad Mynytho.

Wedi iddynt gyrraedd gwaelod y goriwaered, gerllaw Eglwys Llanbedrog, dyma Robert yn dweud wrth y Gwyddelod am ddal i fynd, a meddai wrth fy nhaid 'Os ydi *o* isio'i ginio, mae arna inna isio bwyd hefyd. Tyd adra.' Beth ddaeth o'r Gwyddelod, wn i ddim.

Os oedd fy nhaid yn 12 oed ar y pryd, mae'n debyg mai tua dechrau 40au'r ganrif ddiwethaf y digwyddodd hyn — cyfnod y newyn mawr, a'r Gwyddelod yn croesi mewn cychod bychain liw nos i lannau gogleddol Llŷn cyn cychwyn ar y daith hir i Loegr, gwlad y golud.

Ie, tad Francis William y Cytundeb oedd y Sgweier hwnnw. Ymhen amser, priododd Francis â merch fonheddig o Iwerddon, a dyna a ddywedai 'Nhaid, yn ôl y sôn, 'Be ddeudai'r Hen Ddyn, tybed, pe gwyddai fod Gwyddelas yn yfed te yn 'i barlwr?'

. . . . nor shall any custom of the country . . . be set up in opposition thereto.

# RHOI EI LE I DWM GWYNEDD

Gan MARI ELLIS

YN EI ysgrif ddifyr, Prifwyliau'r Dyddiau Gynt (*Y Casglwr* rhif 40, Mawrth 1990) cyfeiria D. Tecwyn Lloyd at ŵr o'r ffug-enw Gwynedd, Trysorydd yr Orsedd yn 1912. Ychwanega nad oedd na bardd na dyn rhyddiaith na gŵr gradd. Digon gwir, er hynny yr oedd yn gymeriad, yn yr ystyr a roddwn i bobl allan o'r cyffredin, sy'n dyfod â gwên i'n hwynebau pan glywn amdanynt, ond yn gallu bod yn dipyn o boendod i'w cyfoeswyr.

Yr oeddwn yn gynefin â chlywed fy rhieni'n sôn am Dwm Gwynedd, a deuthum i adnabod dwy nith iddo oedd yn byw yn Llanfairfechan, sef Miss Edwards a ofalai amdano yn ei flynyddoedd olaf, a Mrs Lily Lloyd.

Thomas Edwards oedd ei enw, a rheithor Aber, ger Bangor, ydoedd o 1901 hyd ei farw yn 1924. Yr oedd yn ganon ac yn 'Broctor yn y Confocasiwn', beth bynnag yw ystyr hynny, ac yn aelod o'r Seiri Rhyddion.

Pan ddaeth yn ficer Llanfihangel y Pennant ac Abergynolwyn y daeth i fri fel 'bardd'. Rhoddaf y gair mewn dyfynodau gan nad oes sicrwydd iddo ei ystyried ei hun yn fardd erioed, ond yn hytrach yn brydydd a ymhyfrydai mewn rhaffu penillion a llinellau cynganeddol.

Yn 1876 y daeth i Abergynolwyn, gan fyw yn yr Hendre, gan nad oedd ficerdy ar ei gyfer. Yn 1882 cafodd gurad o'r enw Robert Arthur Williams, a adwaenwn wrth yr enw barddol, Berw. Hwnnw a gafodd y bai am roi syniadau ym mhen ei ficer a dysgu'r cynganeddion iddo.,

*Rhaid gwahaniaethu rhyngddo a Gwilym Berw, William Lewis a ddaeth yn ficer Abergynolwyn ar ôl Twm Gwynedd. Fo oedd awdur yr englyn enwog, 'Gwŷr yrrwyd i'n gororau . . .'*

* * *

YN Y cyfnod hwnnw yr oedd digonedd o gyfarfodydd llenyddol ac eisteddfodau yng nghylch Dolgellau a Ffestiniog, fel y gallai Twm Gwynedd fwrw ei brentisiaeth. Enillodd gadair am awdl ar Ostyngeiddrwydd, o bopeth, oherwydd yn ôl pob sôn, nid dyna un o'i rinweddau amlycaf.

Ei gampwaith oedd traethawd Saesneg ar y cynganeddion, *The Characteristics of Welsh Poetry*, a enillodd iddo wobr yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaernarfon 1886. Yn hwn rhoes enghraifft, yn Saesneg, o bob un o'r pedwar mesur ar hugain! Dim ond un llinell o'i waith sydd wedi aros ar gof gwlad, sef llinell olaf ei englyn i'r *tea-cosy*, 'A thop côt y tebot yw.'

Ni chyfyngai ei hun i'r gynghanedd. Britha ei waith gyfnodolion troad y ganrif; mae 'Myfyrdaith y disgybl-fardd ar Gadair Idris' yn rhedeg dros bum tudalen o'r *Haul* (1905). Wele beth o flas hwnnw:

**Fy rhyfedd hun oedd lawn barddonol dân**
**Barddoniaeth popeth ar y gwely glân . . .**

ac yn dilyn mae pymtheg llinell a phob un yn dechrau gyda'r gair *Barddoniaeth*.

Dywedodd un o'i gyfoedion mewn ysgrif goffa iddo, 'Medrai farddoni wrth y llathenni neu yn wir wrth y milltiroedd.' Yr oedd Gwynedd yn bencampwr ar bentyrru geiriau. Dywedodd un o gyfeillion Berw wrtho y dylai 'gael ei ddedfrydu i gerdded yn nhraed ei sanau drwy eithin am bythefnos am iddo erioed berswadio Gwynedd ei fod yn fardd.'

Dyn ymwthgar ydoedd, yn ôl Berw, yn hawlio sylw, 'ni wyddai ddim am swildod'. Yn ystod seremoni'r Orsedd un tro, ' . . . llusgodd fi gerfydd coler fy nghôt i ymyl y cylch at y Maen Llog, a gorfodwyd fi yn llythrennol i esgyn i ben hwnnw i ddangos fy hun fel awdur anfarwol rhywbeth neu'i gilydd, nid wyf yn cofio beth. Ni theimlais erioed yn fy mywyd yn gymaint o ffŵl,' Gallai pethau felly ddigwydd yn ystod seremoniau'r Orsedd y pryd hynny; onid oedd yn hen bryd i

parhad ar dudalen 18